

LLOYD, DANIEL LEWIS (1843 - 1899), ysgolfeistr ac esgob

Enw: Daniel Lewis Lloyd
Dyddiad geni: 1843
Dyddiad marw: 1899
Priod: Elizabeth Margaret Lloyd (née Lewis)
Rhiant: John Lloyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr ac esgob
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yn y Fron, Llanarth, Sir Aberteifi, 23 Tachwedd 1843, mab John Lloyd. Tua 16 oed aeth i ysgol ramadeg Llanbedr-pont-Steffan, ac yn 1864 enillodd ysgoloriaeth yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Graddiodd yn B.A. yn 1867 â chlod yn yr ail ddosbarth yn y clasuron, a chymryd ei M.A. yn 1871. Urddwyd ef yn ddiakon yn 1867 ac yn offeiriad yn 1869. Bu'n gurad Dolgellau ac yn brifathro'r ysgol ramadeg yno o 1867 hyd 1872; yna aeth yn brifathro 'r i Ysgol Friars ym Mangor, yn 1873, a bu yno hyd 1878, pryd y penodwyd ef yn brifathro Coleg Crist, Aberhonddu. Ym mhob un o'r ysgolion hyn gwnaeth lawer i godi safon y gwaith a nifer y disgyblion, ac i roddi bechgyn addawol ar ben y ffordd. Yn 1890 dyrchafwyd ef yn esgob Bangor, ond buan y llesteiriwyd ei weithgarwch gan afiechyd, a bu raid iddo roddi'r gorau i'w swydd yn 1899. Ymneilltuodd i'w hen gynefin, a bu farw yn y Gwynfryn, Llanarth, 4 Awst. Claddwyd ef ym mynwent Llanarth. Priododd Elizabeth Margaret, merch y Parch. D. Lewis, Trawsfynydd, a bu iddynt dair merch.

Lloyd oedd y Cymro Cymraeg cyntaf ers dwy ganrif i'w benodi'n esgob Bangor. Er iddo ddwyn allan yn ystod ei dymor yno *Emyniadur yr Eglwys*, a ddefnyddir hyd heddiw, ymddengys mai fel ysgolfeistr y bu fwyaf llwyddiannus.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Yr Haul, Awst 1899

Who was who?

The Cambrian News and Merionethshire Standard, 11 Awst 1899

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Lewis Lloyd](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [31674251](#)

Wikidata: [Q13127795](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Ellis, T. I., (1953). LLOYD, DANIEL LEWIS (1843 - 1899), ysgolfeistr ac esgob. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 2 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLOY-LEW-1843>

Clippwr

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government